Y System Cyfiawnder Troseddol

Canllaw Prosiect

Canllaw Ategol i Gynllun Busnes y System Cyfiawnder Troseddol 2007/08

2007/08

SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Cynnwys

	Cyflwyniad	2
1.	Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg	3
2.	Blaenoriaethau sefydledig	18
3.	Prosiectau TG y System Cyfiawnder Troseddol	26
4.	Prosiectau eraill	39
5.	Amserlen prosiectau	54
6.	Mynegai prosiectau	61

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion am y prosiectau a'r mentrau a fydd yn effeithio ar waith Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol drwy gydol 2007/08. Dylid ei darllen ar y cyd â Chynllun Busnes y System Cyfiawnder Troseddol 2007/08, sy'n amlinellu'r targedau y bwriedir i'r prosiectau hyn gyfrannu at eu cyflawni. Dywedodd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol wrthym y llynedd y byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol tu hwnt pe byddai'n nodi'n glir pa ddarnau o waith sydd â'r flaenoriaeth fwyaf o ran diwygio'r system cyfiawnder troseddol, er mwyn gallu ymgorffori'r gwaith hwnnw yn eu gwaith hwy o gynllunio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Felly, strwythurir y ddogfen hon fel a ganlyn:

1. **Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg:** mae'r adran hon yn amlinellu'r mentrau a sefydlwyd gan y ddau brif adolygiad o bolisi, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006, a fydd yn cael effaith yn 2007/08

2. **Blaenoriaethau sefydledig:** mae'r adran hon yn trafod y prosiectau yn ein portffolio presennol, ac mae'n nodi'r rhai sydd â'r flaenoriaeth fwyaf

3. **Prosiectau TG y System Cyfiawnder Troseddol:** mae'r adran hon yn cwmpasu'r prosiectau TG a fydd yn cael eu gweithredu yn 2007/08

4. **Prosiectau eraill:** mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am bob prosiect diwygio arall sy'n mynd rhagddo yn 2007/08

5. **Amserlen prosiectau:** tabl sy'n cyflwyno'r holl wybodaeth sydd ar gael am amserlennu prosiectau yn 2007/08 ar ffurf darlun o'r flwyddyn gyfan

6. **Mynegai prosiectau:** canllaw cyfeirio cyflym i'ch helpu i ddod o hyd i wybodaeth am brosiect penodol

1. Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg

Gan adeiladu ar *Lleihau Trosedd, Cyflwyno Cyfiawnder: Crynodeb o'r Cynllun Strategol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol 2004–08,* cyhoeddwyd dwy ddogfen gennym yn 2006 sydd, gyda'i gilydd, yn datgan yn glir ein blaenoriaethau mwyaf o ran dyfodol y system cyfiawnder troseddol. Nodir y cyfeiriad a roddir gan *Cydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith* a *Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod* yn adran 1.3 o Gynllun Busnes y System Cyfiawnder Troseddol, y mae'r canllaw hwn yn ei ategu. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn cynnwys nifer fawr o ymrwymiadau i ddiwygio'r system a fydd yn parhau y tu hwnt i ddiwedd 2007/08.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ymgynghori ar sawl maes polisi, sy'n golygu nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto o ran pa brosiectau a ddatblygir mewn gwirionedd. O ran yr ymrwymiadau hynny a weithredwyd gennym ar unwaith ym mis Gorffennaf 2006, mae'r adran hon yn cynnwys tabl cryno o wybodaeth am bob prosiect a fydd yn effeithio ar weithrediadau Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn 2007/08. Yn yr adran hon hefyd, ceir gwybodaeth am waith sy'n mynd rhagddo ar alltudio carcharorion o dramor; gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (DCJR) ac sy'n brif flaenoriaeth i'r Swyddfa Gartref. Mae'r prosiectau a gynhwysir yn yr adran hon fel a ganlyn.

Cydbwyso o'r newydd: Rhoi pobl sy'n ufudd i'r gyfraith a chymunedau yn gyntaf

- Siarter y Tystion.
- Eiriolwyr Dioddefwyr y Bwrdd Parôl.
- Y Gwasanaeth Gorfodi Cenedlaethol.
- Cyfiawnder Cymunedol.
- Addewid yr Erlynwyr.

Cydbwyso o'r newydd: Mynd i'r afael â throseddwyr er mwyn gostwng troseddu, lleihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd

- Gweithredu Adran 10 o Ddeddf Cyffuriau 2005.

Cydbwyso o'r newydd: System symlach, cyflymach a thecach â gorfodi cryf a *Cyfiawnder Troseddol – Syml, Cyflym, Diannod*

- Fframwaith Perfformiad Symlach ar gyfer Troseddau a Phlismona (APACS: Asesiadau o Blismona a Diogelwch Cymunedol).
- Ehangu'r defnydd o rybuddion amodol er mwyn gallu cynnwys amodau cosbi.
- Cyfiawnder Drannoeth.
- Symleiddio Llysoedd Ynadon (CJSSS).
- Gwelliannau yn Llysoedd y Goron (CJSSS).
- Fframweithiau Rheoli Achosion Troseddol.
- Arallgyfeirio o'r Llys (CJSSS).
- Swmpbrosesu (CJSSS).

Arall

- Carcharorion o Dramor: Prosiect Peilot Dynodi Cenedligrwydd.

Tablau gwybodaeth am brosiectau blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg

Prosiect	**Siarter y Tystion**		
Uwch swyddog cyfrifol	Edward Gretton, Pennaeth yr Uned Cyfiawnder a Gorfodi, OCJR	**Cyswllt**	Stephen Cummins 020 7035 8705
Amcan	Rhoi gwell eglurhad i dystion o'r gwasanaethau a'r lefel o ofal y dylent eu cael gan asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol, gan arwain at wasanaeth gwell a chyson.		
Cam Gweithredu	Gweithredu Siarter y Tystion yn raddol – gan ddechrau mewn tair neu bedair ardal yn 2007, a'i gyflwyno'n genedlaethol yn 2008.		
Amserlen	Dechreuir ei weithredu'n raddol mewn tair neu bedair ardal (I'w gadarnhau)		Erbyn mis Ebrill 2007
	Ei weithredu'n genedlaethol		Ebrill 2008

Prosiect	**Eiriolwyr Dioddefwyr y Bwrdd Parôl**		
Uwch swyddog cyfrifol	Russel A'Court, Pennaeth Rhyddhau ac Ailalw, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)	**Cyswllt**	Russell A'Court 020 7035 3022
Amcan	Tynnu sylw'r Bwrdd Parôl at bryderon dioddefwyr o ran yr achosion rhywiol a threisgar mwyaf difrifol.		
Cam Gweithredu	Eiriolwyr Dioddefwyr wedi'u penodi.		
Amserlen	Dechrau hyfforddi Eiriolwyr		Mawrth 2007
	Eiriolwyr yn dechrau ar eu gwaith		Ebrill 2007
	Rhoi canllawiau newydd i'r Gwasanaeth Prawf		Mawrth 2007
	Trefnu gweithdai ar gyfer swyddogion cyswllt dioddefwyr		Ebrill 2007

Prosiect	**Y Gwasanaeth Gorfodi Cenedlaethol (NES)**		
Uwch swyddog cyfrifol	Mike Hems, Cyfarwyddwr Gorfodi Cenedlaethol, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS)	**Cyswllt**	Helen Fisher 01772 849951
Amcanion	Gwella'r ffordd y mae gweithwyr proffesiynol ym maes gorfodi yn cydweithio a chyflawni newidiadau o ran perfformiad ym maes gorfodi. Lleihau achosion o ddyblygu a gwella'r broses o rannu gwybodaeth a data o fewn a rhwng asiantaethau. Bydd yr NES yn proffesiynoli ac yn safoni dulliau'r heddlu a'r HMCS o gymryd camau gorfodi a bydd yn sicrhau bod gan y rheini sy'n gyfrifol am waith gorfodi y pwerau a'r adnoddau priodol i'w gyflawni. Cyflwyno gwarantau mewn modd newydd gan ddefnyddio datrysiad TG NES. Bydd yn galluogi gwarantau i gael eu dyrannu i'r asiantaeth fwyaf priodol, yn dibynnu ar risg. Am y tro cyntaf bydd yn bosibl gweld gwarantau'n genedlaethol. Gweithredir Cynllun Braenaru yng Ngogledd-orllewin Lloegr ar hyn o bryd. Cyflwynir y mentrau amrywiol yn raddol ledled y wlad o fis Ebrill 07.		
Camau Gweithredu	Bydd NES yn newid y ffordd y cymerir camau gorfodi ledled y wlad yn y bôn drwy gyflwyno proses gydweithio ar draws sawl asiantaeth a galluogi pobl i weld data cenedlaethol yn lleol. System negeseuon testun sy'n galluogi llysoedd i anfon negeseuon testun i ffonau symudol troseddwyr i'w hatgoffa i dalu dirwyon neu gadw apwyntiadau llys neu apwyntiadau gyda'r gwasanaeth prawf. Canolfannau rhagoriaeth mewn atafaelu i ganoli'r broses o gyflwyno a gorfodi gorchmynion atafaelu. Cerbydau cell ddiogel ac offer i gynyddu proffesiynoldeb ac i sicrhau diogelwch staff. Datrysiad TG a fydd yn ei gwneud yn bosibl i weld gwarantau'n genedlaethol ac yn awtomeiddio'r broses o ddyrannu gwarantau i'r asiantaeth fwyaf priodol.		
Amserlen	Dechrau cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol		Ebrill 2007
	Dechrau ar y broses o gyflwyno'r system ymdrin â gwarantau		Medi 2007
	Cwblhau'r broses o gyflwyno'r prosiect yn genedlaethol		Mawrth 2009

Prosiect	**Cyfiawnder Cymunedol**		
Uwch swyddog cyfrifol	Clare Sumner, Cyfarwyddwr Perfformiad, HMCS	**Cyswllt**	Simon White 020 7210 0479
Amcanion	Sicrhau bod y llysoedd a'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb i'r gymuned a sicrhau bod anghenion cymunedau yn cael eu diwallu ac, yn hollbwysig, nad ydynt yn ailgodi. Mae'r cysylltiad â phlismona cymdogaethau yn hanfodol yma. Rhoi'r gorau i aildroseddu, yn rhannol drwy gynnwys amrywiaeth o asiantaethau yn y gwaith o ddatrys problemau. Sicrhau bod y gymuned yn gweld ac yn cydnabod bod troseddwyr yn cydymffurfio â gorchmynion llys neu gosbau eraill ac yr eir i'r afael â phroblemau cymunedol.		
Camau Gweithredu	Cyflwyno mentrau Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl a Salford. Cyflwyno deg menter Cyfiawnder Cymunedol arall yn Birmingham; Bradford; Dyfnaint a Chernyw; Hull; dwy yn Llundain; Swydd Gaerlŷr; Merthyr Tudful; Middlesbrough a Nottingham. Pennu egwyddorion Cyfiawnder Cymunedol prif ffrwd.		
Amserlen	Deg menter Cyfiawnder Cymunedol wedi eu rhoi ar waith		Mawrth 2007
	Prif ffrydio'r egwyddorion Cyfiawnder Cymunedol		Rhagfyr 2010

Prosiect	**Addewid yr Erlynwyr**		
Uwch swyddog cyfrifol	Jenny Rowe, Cyfarwyddwr Polisi a Gweinyddu, Swyddfa'r Atwrnai Cyffredinol	**Cyswllt**	Robert Lennox 020 7271 2500
Amcanion	Sicrhau bod pob erlynydd yn ystyried ac yn cefnogi buddiannau dioddefwyr drwy gydol achos ac ymhob math o achos. Bydd pob prif awdurdod erlyn cyhoeddus yn ymrwymo i ystyried a diogelu buddiannau dioddefwyr. Mae pob asiantaeth erlyn wedi edrych ar ymrwymiadau Addewid yr Erlynwyr ac wedi ei addasu i'w meysydd gwaith.		
Camau Gweithredu	Mae Addewid yr Erlynwyr yn galw ar yr erlynydd, pan fo dioddefwr hysbys, i wneud y canlynol: > ystyried yr effaith ar y dioddefwr neu'r teulu wrth ddod i benderfyniad cyhuddo; > hysbysu'r dioddefwr pan gaiff y cyhuddiad ei dynnu'n ôl, ei derfynu neu ei newid yn sylweddol; > pan fo'n ymarferol, holi barn y dioddefwr neu'r teulu wrth ystyried a yw ple yn dderbyniol; > diwallu anghenion penodol y dioddefwr a, phan fo'n gyfiawn, ceisio ei gadw'n ddienw drwy gyflwyno cais priodol i'r llys; > cynorthwyo dioddefwyr yn y llys i gofio eu datganiadau ysgrifenedig neu fideo, ac ateb eu cwestiynau ar weithdrefnau a phrosesau'r llys; > hyrwyddo ac annog cyd-drafod rhwng y dioddefwr a'r erlynydd yn y llys; > amddiffyn dioddefwyr rhag ymosodiadau anghyfiawn neu amherthnasol ar eu cymeriad a cheisio cael y llys i ymyrryd pan ystyrir bod unrhyw groesholi yn amhriodol neu'n ormesol; > pan geir collfarn, herio lliniariad yr amddiffyniad yn drylwyr os yw'n dwyn anfri ar gymeriad y dioddefwr; > pan geir collfarn, gwneud cais am y gorchymyn priodol ar gyfer iawndal, adferiad neu ddiogelu'r dioddefwr yn y dyfodol; a > rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr am hynt unrhyw apêl, ac egluro effaith dyfarniad y llys.		
Amserlen	Mae'r addewid wedi'i fabwysiadu gan bob prif erlynydd ers mis Gorffennaf 2006. Dylai unrhyw waith cynllunio ar gyfer 2007/08 ystyried ei ofynion.		

Prosiect	**Gweithredu Adran 10 o Ddeddf Cyffuriau 2005**		
Uwch swyddog cyfrifol	Peter Wheelhouse, Pennaeth Ymyriadau Troseddwyr, Grŵp Gostwng Troseddu a Diogelwch Cymunedol (CRCSG)	**Cyswllt**	Peter Grime 020 7035 0538
Amcan	Cynnal asesiad cyffuriau dilynol a fydd yn orfodol i droseddwyr pan fo defnyddio cyffuriau yn arwain at droseddu. Byddai hyn yn golygu rhoi triniaeth i fwy o droseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau.		
Camau Gweithredu	Asesiad dilynol gorfodol, lle mae troseddwyr yn gorfod gwneud cais i beidio â'i gael yn hytrach na gwneud cais i'w gael o safbwynt yr heddlu. Mae angen cytundeb uwch swyddog er mwyn peidio â chael asesiad.		
Amserlen	Sesiynau briffio rhanbarthol		Ionawr 2007
	Gorchymyn Cychwyn yn y Senedd		Chwefror–Mawrth 2007
	Cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol		Ebrill 2007

Prosiect	**Fframwaith Perfformiad Symlach ar gyfer Troseddau a Phlismona (APACS: Asesiadau o Blismona a Diogelwch Cymunedol)**		
Uwch swyddog cyfrifol	Paul Evans, Cyfarwyddwr Safonau'r Heddlu a Throseddau, CRCSG	**Cyswllt**	Stephen Ashford 020 7035 8991
Amcan	Rhoi gwybodaeth glir a chyson sydd o safon uchel i bob partner sy'n ymwneud â chyflawni'r fframwaith.		
Camau Gweithredu	Un fframwaith perfformiad ar gyfer cyffuriau, troseddau a phlismona. Lleihau nifer y mesurau, gan ymgorffori'r mesurau sy'n weddill mewn Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus a blaenoriaethau cenedlaethol.		
Amserlen	Cyfarfod gweinidogol â rhanddeiliaid allweddol a fydd yn arwain at benderfynu ar gwmpas ac amseriad y fframwaith newydd		Ionawr 2007

Nodyn: trafodir ehangu'r defnydd o rybuddion amodol er mwyn gallu cynnwys amodau cosbol ar dudalen 24 mewn tabl sy'n cwmpasu pob gweithgaredd yn y maes polisi hwn.

Prosiect	**Cyfiawnder Drannoeth**		
Uwch swyddog cyfrifol	Pat Lloyd, Cyfarwyddwr Gwelliannau Cyfiawnder Troseddol, HMCS	**Cyswllt**	Martin Jones 020 7210 2883
Amcan	Sicrhau bod hynt achosion troseddol drwy'r system cyfiawnder troseddol mor gyflym â phosibl, o'r cyhuddiad i'r penderfyniad.		
Cam Gweithredu	Y nod yw cynnal y gwrandawiad cyntaf mor gynnar â phosibl, gan gynnal treialon o fewn dyddiau ar gyfer pleon dieuog.		
Amserlen	Adroddiad yn gwerthuso'r cynlluniau peilot		Gorffennaf 2007
	Cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol		Awst 2007

Prosiect	**Symleiddio Llysoedd Ynadon (CJSSS)**		
Uwch swyddog cyfrifol	Pat Lloyd, Cyfarwyddwr Gwelliannau Cyfiawnder Troseddol, HMCS	**Cyswllt**	Damon Norville damon.norville@dca.gsi.gov.uk
Amcanion	Mae'r prosiect Symleiddio Llysoedd Ynadon yn rhan o *Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod*. Y nod yw lleihau'r arferion gorgymhleth yn sylweddol ynghyd â'r amser a gymerir i ymdrin â phob achos a wrandewir mewn llysoedd ynadon – yn enwedig yr achosion cymharol syml sy'n gofyn am weithdrefn frys. Yn benodol ceisiwn sicrhau: > cyfiawnder syml – lleihau nifer y gwrandawiadau yn y rhan fwyaf o achosion, o rhwng pump a chwech ar gyfartaledd i un (ar gyfer pleon euog) a dau (ar gyfer achosion a gaiff eu herio); a > cyfiawnder cyflym – y rhan fwyaf o achosion syml yn cymryd rhwng diwrnod a chwe wythnos o'r cyhuddiad i'r penderfyniad, o gymharu â'r system bresennol sy'n fwy nag 21 wythnos ar gyfartaledd.		
Camau Gweithredu	**Gwaith paratoi gwell gan yr erlyniad ar gyfer gwrandawiadau cyntaf.** I gyflawni hyn, y prif newidiadau oedd adolygu cynnwys gwybodaeth a roddir ymlaen llaw i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r ddogfen *Manual of guidance*, a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi ymlaen llaw o ran pob achos lle cyhuddwyd unigolyn cyn y gwrandawiad cyntaf. Mae'n rhaid i ardaloedd fod yn rhagweithiol wrth baratoi achos yr erlyniad er mwyn symleiddio a chyflymu'r gwaith o brosesu achosion o fewn system y llysoedd, a rhoi lefel briodol o wybodaeth i'r llys a'r amddiffyniad. Ar lefel fanylach mae arferion busnes yr ardaloedd prawf yn amrywio (sy'n adlewyrchu'r amrywiadau presennol o fewn arferion lleol). Yn y cyd-destun hwn, ceir y gwahaniaethau mwyaf nodedig yng nghynnwys ffeiliau achos yr erlyniad a gwybodaeth a roddir ymlaen llaw. Mae'n bwysig nodi bod y cynllun cenedlaethol yn cefnogi cydymffurfio â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r ddogfen *Manual of guidance*. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd yr angen am hyblygrwydd lleol a dealltwriaeth o amgylchiadau lleol. Pan fo ymarferwyr ardal wedi mabwysiadu dull o weithredu sy'n mynd y tu hwnt i ganllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r ddogfen *Manual of guidance*, rhaid iddynt fodloni eu hunain bod hyn yn hanfodol i fodloni gofynion lleol ac y gallant barhau i weithredu yn y fath fodd, e.e. defnyddio adnoddau lleol.		

Prosiect *(parhad)*	**Symleiddio Llysoedd Ynadon (CJSSS)**	
Camau Gweithredu *(parhad)*	Yn ogystal, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wrthi'n treialu 'proses gyflym' newydd ar gyfer achosion diannod yn unig penodol ac achosion lle y disgwylir ple euog y naill ffordd neu'r llall. Byddai'r system frys hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd gymryd camau gorfodi. Pe bai'n llwyddiannus, byddai'n lleihau'r gofyniad i'r erlyniad baratoi cyn y gwrandawiad cyntaf ymhellach. **Parodrwydd yr amddiffyniad ar gyfer y gwrandawiad cyntaf.** I gyflawni hyn, y prif newid fu sicrhau bod gan gyfreithwyr yr amddiffyniad y wybodaeth sydd ei hangen – drwy gael gwybodaeth ymlaen llaw cyn i'r gwrandawiad cyntaf ddechrau – er mwyn sicrhau bod y gwrandawiad cyntaf yn effeithiol. Yn ogystal, mae polisi cymorth cyfreithiol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA) wedi pwysleisio y bydd trefniadau masnachol newydd o dan Adolygiad Carter yn annog yr amddiffyniad i wella effeithlonrwydd, ac yn benodol yn eu hannog i beidio ag ymestyn yr achos y tu hwnt i'r gwrandawiad cyntaf a gofyn am wrandawiadau interim. Gydag amser, dylai hyn ddileu elfennau aneffeithlon cwmnïau amddiffyn o broses y gwrandawiad cyntaf. **Gwrandawiadau cyntaf mwy effeithiol.** I gyflawni hyn, mae'r llys wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o sicrhau y gwneir ple yn ystod y gwrandawiad cyntaf, neu o derfynu achos os yw'n briodol. Mae'r farnwriaeth wedi sicrhau, mewn achosion a gaiff eu herio, y caiff materion eu nodi, y rhoddir cyfarwyddiadau priodol ar gyfer achosion sy'n mynd i dreial ac y pennir dyddiad ar gyfer treial. Mae barnwyr rhanbarth a chynghorwyr cyfreithiol wedi gallu darllen papurau ymlaen llaw cyn y gwrandawiadau cyntaf. Mewn ardaloedd lle mae ynadon yn eistedd, mae cynghorwyr cyfreithiol wedi gallu eu briffio. Ar y cyfan, mae hyn wedi galluogi'r farnwriaeth i ddeall yn llawn y materion mewn achos a gweithredu mewn modd cadarnach drwy herio a chwestiynu'r amddiffyniad. **Hynt achos y tu allan i'r llys.** I gyflawni hyn, yn dilyn y gwrandawiad cyntaf mae'r drefn rheoli achosion yn briodol i ddifrifoldeb yr achos ac mae achos yn mynd yn ei flaen y tu allan i'r llys – mae gwrandawiadau interim ac adolygiadau cyn treial yn eithriadau. Caiff treialon cyn adolygiad eu rhestru drwy eithriad a dim ond nifer fach a gynhaliwyd ar draws pob safle. Yn eu lle, gwelwyd achosion yn mynd yn eu blaen y tu allan i'r llys. Bellach, gwelir y gwrandawiad cyntaf fel cyfle i'r llys reoli achosion mewn modd rhagweithiol. Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal ar gyfer y rhan fwyaf rhwng swyddogion hynt achos ymhob asiantaeth i sicrhau bod achosion yn mynd yn eu blaen ac i ddatrys materion cyn y treial.	
Amserlen	Dechrau ar y gwaith o Symleiddio Llysoedd Ynadon	Ebrill 2007
	Dechrau ar y gwaith o Symleiddio Llysoedd Ynadon mewn ardaloedd prawf PROGRESS	Ebrill 2007
	Dechrau ar y gwaith o Symleiddio Llysoedd Ynadon mewn rhagor o ardaloedd prawf PROGRESS	Ebrill 2007
	Dyddiad cwblhau diweddaraf ar gyfer Symleiddio Llysoedd Ynadon mewn ardaloedd prawf PROGRESS	Gorffennaf 2007
	Dyddiad cwblhau diweddaraf ar gyfer Symleiddio Llysoedd Ynadon mewn rhagor o ardaloedd prawf PROGRESS	Medi 2007
	Gwerthuso'r gwaith o gyflwyno PROGRESS mewn ardaloedd prawf gan gynnwys adolygiadau ôl-weithredu	Ebrill – Hydref 2007
	Dyddiad cwblhau diweddaraf ar gyfer Symleiddio Llysoedd Ynadon	Chwefror 2008

Prosiect	**Gwelliannau yn Llysoedd y Goron (CJSSS)**		
Uwch swyddog cyfrifol	Pat Lloyd, Cyfarwyddwr Gwelliannau Cyfiawnder Troseddol, HMCS	**Cyswllt**	Sue Adams 020 7210 2894 susan.adams@ hmcourts-service.gsi.gov.uk
Amcanion	Cynyddu cyflymder ac effeithiolrwydd achosion drwy Lys y Goron a chael gwared ar wrandawiadau diangen. Y targed presennol yw dechrau ar 78% o draddodebau ac achosion a anfonir i'r llys o fewn 16 wythnos. Ar hyn o bryd, mae'r Llys y Goron sy'n perfformio orau yn cyflawni amser aros o ddeg wythnos ar gyfartaledd, gyda pherfformiad o 88% yn erbyn y targedau amseroldeb presennol. Ein nod yw gwella perfformiad ymhob canolfan Llys y Goron.		
Camau Gweithredu	Yr uchelgais cyffredinol yw i Lys y Goron leihau'r amser a gymerir fel y dechreuir ar y rhan fwyaf o achosion ac yr ymdrinnir â hwy o fewn 16 wythnos. Lleihau nifer y gwrandawiadau cyn treial o gynifer â chwech (yn y sampl o'r llysoedd yr ymwelwyd â hwy) i ddim mwy na dau (h.y. y gwrandawiad rhagarweiniol a'r gwrandawiad ple a rheoli achos) yn y rhan fwyaf o achosion, ar wahân i achosion cymhleth ac anodd. Mae'r canlyniadau a'r effeithiau targed ar gyfer y prosiect fel a ganlyn: > Cynyddu nifer y pleon euog cynnar (mesur yr amser a gymerir i weld a gynhelir pleon/gwrandawiadau yn gynt) > Lleihau nifer a chyfran y gwrandawiadau cyn treial aneffeithlon. > Lleihau cyfanswm nifer y gwrandawiadau. > Cynyddu nifer y gwrandawiadau treial effeithiol. > Lleihau nifer y gwrandawiadau treial aneffeithlon a'r treialon diffygiol posibl. > Lleihau nifer y treialon a ddiddymir. > Lleihau'r amser a gymerir yn gyffredinol o gyhuddo unigolyn i'r penderfyniad ac o'r gwrandawiad cyntaf i'r penderfyniad. > Gwella effeithiolrwydd gwrandawiadau rhagarweiniol.		
Amserlen	**Cam 1**		
	Dechrau ar y profion lleihau gwrandawiadau crybwyll		Chwefror 2007
	Cam 2		
	Drafftio model arfer da yn sgîl y penderfyniadau a wnaed yn y gynhadledd breswyl i farnwyr		Chwefror 2007
	Dosbarthu'r model i'w ddilysu i'r farnwriaeth, CPS, yr heddlu, HMCS, NOMS, bargyfreithwyr a'r gymuned amddiffyn		Mawrth 2007
	Cam 3		
	Gwerthuso costau a buddiannau'r model		Mawrth–Ebrill 2007
	Penderfynu ar yr hyn sydd angen ei brofi o'r model		Mawrth–Ebrill 2007
	Llunio profion		Ebrill–Mai 2007
	Dilysu gyda'r farnwriaeth, CPS, yr heddlu, HMCS, NOMS, bargyfreithwyr a'r gymuned amddiffyn a chael cymeradwyaeth y bwrdd		Mai 2007
	Gwerthuso profion		Mehefin–Awst 2007
	Gweithredu'r model busnes cytûn yn genedlaethol		Awst 2007

Prosiect	**Fframweithiau Rheoli Achosion Troseddol**		
Uwch swyddog cyfrifol	Mark de Pulford, Pennaeth yr Uned Treialon Gwell, OCJR	**Cyswllt**	Sally Arnold 020 7035 8454
Amcanion	Llunio canllawiau i ymarferwyr gweithredol ar arfer gorau ym maes rheoli achosion. Cyflwyno prosiectau Symleiddio Llysoedd Ynadon a Gwelliannau yn Llysoedd y Goron y CJSSS yn y 42 o ardaloedd cyfiawnder troseddol. Llunio canllawiau am y tro cyntaf ar reoli achosion ieuenctid.		
Camau Gweithredu	Rhan 1 y Fframwaith i Oedolion (y llys ynadon) a chardiau defnyddwyr ymarferwyr ategol. Rhan 2 y Fframwaith i Oedolion (Llys y Goron) a chardiau defnyddwyr ymarferwyr ategol. Y Fframwaith i Ieuenctid a chardiau defnyddwyr ymarferwyr ategol.		
Amserlen	Rhan 1 y Fframwaith i Oedolion a'r cardiau defnyddwyr		Chwefror/Mawrth 2007
	Rhan 2 y Fframwaith i Oedolion a'r cardiau defnyddwyr		Gwanwyn 2007
	Y Fframwaith i Ieuenctid a'r cardiau defnyddwyr		Gwanwyn 2007
	Nodyn: mae pob dyddiad yn amodol ar werthusiad o brosiectau llysoedd ynadon/Llys y Goron CJSSS.		

Prosiect	**Arallgyfeirio o'r Llys (CJSSS)**		
Uwch swyddog cyfrifol	Catherine Lee, Cyfarwyddwr Rheoli Achosion Troseddol, OCJR	**Enwau Cyswllt**	Rhybuddion amodol (ieuenctid) a chyfiawnder adferol – pobl ifanc: Kevin Walsh 020 7035 1307 Gwasanaeth atgyfeirio alcohol yr heddlu: Alan Sparks 020 7035 1826 Rôl yr erlynydd (trosedd reoleiddio a chynnig erlyniadol/barnwrol): Rachel Bell 020 7035 8508
Amcanion	Datblygu dulliau amgen o ymdrin â'r niferoedd uchel o droseddau lefel isel, dogfennol yn bennaf, yn y llysoedd ynadon sydd, ar hyn o bryd, yn cymryd amser anghymesur yn y llysoedd. Mae chwe phrosiect yn y ffrwd gwaith hon: rhybuddion amodol (oedolion); rhybuddion amodol (ieuenctid); cyfiawnder adferol – pobl ifanc; gwasanaeth atgyfeirio alcohol yr heddlu; rôl yr erlynydd – troseddau rheoleiddio; a rôl yr erlynydd – cynnig erlyniadol/barnwrol.		

Prosiect *(parhad)*	**Arallgyfeirio o'r Llys (CJSSS)**
Amcanion *(parhad)*	Nod y prosiect cyffredinol yw llunio fframwaith ar gyfer gwneud defnydd mwy effeithiol o benderfyniadau cyn llys, er mwyn lleihau oedi a galluogi'r llysoedd i ymdrin â'r achosion mwy difrifol a gaiff eu herio yn effeithlon. Bydd gwireddu chwe chynnig allweddol yn helpu i gyflawni'r nod hwn: > Ehangu rhybuddion amodol oedolion, gan gynnwys rhybuddion newydd. > Cyflwyno rhybuddion amodol ieuenctid (16 a 17 oed). > Datblygu'r broses o fesur perfformiad yr heddlu o ran cyfiawnder adferol a ddefnyddir yn erbyn mân droseddau a gyflawnir gan bobl ifanc am y tro cyntaf. > Nodi opsiynau i'w hystyried gan weinidogion ar bwerau'r heddlu i gyfeirio unigolion at wasanaeth addysgol/cyngor megis canolfan sy'n rhoi cyngor ar alcohol. > Asesu'r cwmpas a'r opsiynau o ran arallgyfeirio achosion rheoleiddio fwyfwy (e.e. troseddau moduro neu drwydded deledu dogfennol) yn gosbau penodedig a rhybuddion. > Opsiynau o ran cynnig amodol erlyniadol yn ddarostyngedig i arolygiaeth farnwrol – i annog pleon euog cynharach ar gyfer achosion syml yn y llysoedd ynadon (megis y rhai a fyddai ond yn cael dirwy). Gweithio tuag at system dedfrydu drannoeth heb wrandawiad oni bai bod y diffynnydd yn gofyn am un neu fod y barnwr/ynad yn penderfynu bod angen un.
Camau Gweithredu	Rhybuddion amodol (oedolion) – gweler y tabl ar wahân ar dudalen 25 ar gyfer camau gweithredu, amserlen ac enwau cyswllt. Rhybuddion amodol (ieuenctid). Y bwriad yw lleihau'r nifer gynyddol o blant sy'n mynd i'r llys am droseddau lefel isel drwy gyflwyno dull amgen o ddwyn troseddwyr ifanc o flaen eu gwell a mynd i'r afael â ffactorau troseddegol sylfaenol. Er budd cyfiawnder, byddai dull o'r fath yn gadarn ac yn mynd i'r afael ag achosion troseddu; byddai'n ennyn hyder ac yn sicrhau boddhad dioddefwyr, tystion a'r gymuned; byddai'n syml, yn gyflym ac yn llai costus i'w weithredu; a byddai'n deg ac yn gymesur. Cyfiawnder adferol – pobl ifanc. Y cynnig yw treialu mentrau perfformiad i'r heddlu ddefnyddio ymyriadau cyfiawnder adferol gyda phobl ifanc mewn ymateb i fân achosion o gamymddwyn am y tro cyntaf. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen penderfyniad ffurfiol gan y system cyfiawnder troseddol lle byddai penderfyniad o'r fath yn anghymesur. Effeithiau hyn fydd: > Llai o bobl ifanc yn mynd i'r llys a mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol yn effeithiol. > Gostwng y pwysau ar lysoedd o ganlyniad i hyn, gan eu galluogi i ymdrin â materion mwy difrifol yn gyflymach. > Bydd gan gymunedau fwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol a byddant yn deall y cymerwyd camau effeithiol i atal troseddu. Gwasanaeth atgyfeirio alcohol yr heddlu. Mae'r prosiect hwn ar gam datblygu polisi ar hyn o bryd; felly mae angen cadarnhau'r camau gweithredu o hyd. Rôl yr erlynydd – troseddau rheoleiddio. Mae'r prosiect hwn ar gam datblygu polisi ar hyn o bryd; felly mae angen cadarnhau'r camau gweithredu o hyd. Rôl yr erlynydd – cynnig erlyniadol/barnwrol. Mae'r prosiect hwn ar gam datblygu polisi ar hyn o bryd; felly mae angen cadarnhau'r camau gweithredu o hyd.

Prosiect *(parhad)*	**Arallgyfeirio o'r Llys (CJSSS)**	
Amserlen	Rôl yr erlynydd – troseddau rheoleiddio. Mae cyflwyniad diwygiedig ar fin cael ei wneud i Weinidogion	Ionawr 2007
	Cyfiawnder adferol – pobl ifanc. Lansio mewn pedair ardal beilot	Ebrill 2007
	Rhybuddion amodol (ieuenctid). Newid deddfwriaethol wedi'i wneud yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol	Gwanwyn 2007
	Rhybuddion amodol (ieuenctid). Bydd y cynlluniau peilot yn dechrau ar ôl Cydsyniad Brenhinol (gan mai deddfwriaeth sylfaenol ydyw) a bydd yn para 12 mis	I'w gadarnhau yn 2007
	Rhybuddion amodol (ieuenctid). Byddai dechrau cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol yn dibynnu ar bryd y cynhelir y cynlluniau peilot	Hydref/gaeaf 2008 (I'w gadarnhau)

Prosiect	**Swmpbrosesu (CJSSS)**		
Uwch swyddog cyfrifol	Clare Sumner, Cyfarwyddwr Troseddau a Gorfodi, HMCS	**Cyswllt**	David Liddemore 020 7210 8878
Amcanion	Sefydlu adnodd swmpbrosesu a fydd yn: > cynnig datrysiad mwy cymesur ar gyfer y mathau hyn o droseddau; > cyflymu'r broses o weinyddu cyfiawnder diannod; > cynyddu gallu llysoedd lleol i ymdrin â mathau eraill o droseddau; > sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser ynadon; > cyflwyno gweithdrefnau mwy effeithlon ac arbedion maint; a > gweithredu datrysiad o fewn terfynau gwariant HMCS, gan amharu ar y busnes cyn lleied â phosibl.		
Camau Gweithredu	Nod y prosiect yw dileu 500,000 o droseddau o'r llysoedd ynadon. Bydd y prosiect yn cynllunio, adeiladu a gweithredu canolfan neu ganolfannau swmpbrosesu cenedlaethol a fydd yn swmpbrosesu'r mathau canlynol o drosedd i gychwyn: > Trwyddedau teledu (167,000 o achosion bob blwyddyn). > Trwyddedau gyrru (476,393 o achosion bob blwyddyn). > Treth modur a chofrestru cerbydau (235,113 o achosion bob blwyddyn). > Troseddau'n ymwneud â phrofion cerbydau (344,732 o droseddau bob blwyddyn).		

Prosiect *(parhad)*	**Swmpbrosesu (CJSSS)**
Camau Gweithredu *(parhad)*	Bydd y cynllun yn un y gellir ei raddio a fydd yn galluogi ehangu mathau eraill o waith yn y dyfodol. Y dasg gychwynnol fydd ymchwilio i'r dibyniaethau allweddol sy'n ymwneud â sefydlu canolfan neu ganolfannau swmpbrosesu cenedlaethol erbyn Haf 2007. Os bydd yr ymchwiliad cychwynnol yn dod i'r casgliad bod y dibyniaethau allweddol yn rhwystro sefydlu canolfan swmpbrosesu o fewn yr amserlen hon, caiff y dull o weithredu'r prosiect ei ddiwygio er mwyn ymchwilio i ddatrysiad swmpbrosesu amgen. Byddwn yn ymchwilio i dri opsiwn gweithredu: > Ei gyflwyno yn ôl asiantaeth erlyn. > Ei gyflwyno yn ôl rhanbarth. > Ei gyflwyno yn ôl asiantaeth erlyn a rhanbarth. Bydd y prosiect yn cynnwys y canlynol: > Newid prosesau sy'n cynnwys prosesau o'r cyfnod trosglwyddo o asiantaethau erlyn i'r Gwasanaeth Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer gwaith gorfodi maes ac yn cynnwys y cyfnod hwnnw. > Darparu prosesau a gweithdrefnau i lysoedd lleol eu defnyddio i drosglwyddo achosion o'r ganolfan swmpbrosesu i'r llys lleol ar gyfer achosion a amddiffynnir. > Datblygu canllawiau cenedlaethol i gynorthwyo llysoedd ynadon i reoli'r llwyth gwaith dilynol ac i wireddu'r buddiannau.
Amserlen	I'w chadarnhau

Prosiect	**Carcharorion o Dramor: Prosiect Peilot Dynodi Cenedligrwydd**		
Uwch swyddog cyfrifol	Ken Sutton, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd (IND)	**Cyswllt**	Stephen Hatherall 020 7035 8311
Amcanion	Ar 23 Mai 2006, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref ei fod yn bwriadu gwella'r broses o adnabod tramorwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol a, thrwy hynny, sicrhau bod y carcharorion cywir o dramor yn cael eu halltudio mor gynnar â phosibl ar ôl eu dedfrydu. Fel rhan o hyn, gofynnodd i reolwyr ystyried sut y gellid gwella'r broses o ddynodi cenedligrwydd. Canolbwyntiodd yr ail bwynt gweithredu ar y dasg hon, a oedd yn cynnwys archwilio gwerth posibl gofyniad cyfreithiol newydd i bennu cenedligrwydd, gyda swyddfa droseddol newydd gysylltiedig ar gyfer diffyg cydymffurfio. Canolbwyntiodd y pwynt gweithredu cyntaf ar hyn hefyd, sef ystyried gwerth posibl dull adnabod personol unigryw ar gyfer y tramorwyr hynny sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol. Hefyd, gofynnodd i reolwyr sicrhau bod y canllawiau a roddir i staff ymhob asiantaeth yn gyson ac yn cael eu gweithredu'n dda. Roedd hyn yn sail i'r trydydd pwynt gweithredu. Rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2006, ystyriodd y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR) y ffordd orau o fynd i'r afael â'r ail bwynt gweithredu a'r trydydd pwynt gweithredu; roedd ei chanfyddiadau yn sail i gyflwyniad i Liam Byrne a'r Ysgrifennydd Cartref (anfonwyd copi at yr Arglwydd Ganghellor a'r Twrnai Cyffredinol) ym mis Tachwedd 2006 a nododd gyfres o argymhellion ar y ffordd orau o gyflawni'r amcanion hyn. Datblygwyd darn cyfochrog o waith gan y Swyddfa Gartref o ran y pwynt gweithredu cyntaf.		

Prosiect *(parhad)*	**Carcharorion o Dramor: Prosiect Peilot Dynodi Cenedligrwydd**
Amcanion *(parhad)*	Gwnaeth yr OCJR bum argymhelliad allweddol i Weinidogion: > Treialu proses newydd o nodi cenedligrwydd y rheini yn y system cyfiawnder troseddol. Dylai'r broses hon roi rôl flaenllaw i'r heddlu a'r IND pan gaiff unigolyn ei gyhuddo, gyda rôl newydd yn cael ei rhoi i'r Gwasanaeth Prawf ar y cam llunio adroddiad cyn dedfrydu a rôl barhaus i'r Gwasanaeth Carchardai a Chyfarwyddiaeth Gwaith Achos Troseddol yr IND ar gam diweddarach. > Cyflwyno pŵer chwilio newydd drwy ddeddfwriaeth sylfaenol i alluogi swyddogion yr heddlu a swyddogion mewnfudo i chwilio safleoedd am ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â chenedligrwydd o dan amgylchiadau penodol. > Cyfuno amcanion strategol mewnfudo a chyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau cydberchenogaeth o'r agenda carcharorion o dramor a dull mwy unedig o'u hadnabod, eu rheoli a'u halltudio ar lefel weithredol. > Rhoi strwythurau a phrosesau sefydliadol ar waith o fewn Cyfarwyddiaeth Gwaith Achos Troseddol yr IND er mwyn sicrhau ymateb mwy effeithiol ac amserol i'r wybodaeth a gesglir ganddi am genedligrwydd. > Gwella systemau cyfnewid gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall pob asiantaeth mewnfudo a chyfiawnder troseddol gael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol am dramorwr wrth iddynt gael eu hadnabod. Cymeradwywyd yr argymhellion hyn gan Weinidogion ac erbyn hyn mae angen rhaglen waith i'w gweithredu yn rhan dau. Bydd yr OCJR yn cyfrannu at ran dau drwy gyflwyno'r cynllun peilot a fydd yn ymgymryd â'r gwaith manwl o gynllunio, gweithredu a gwerthuso'r broses newydd i bennu a dilysu cenedligrwydd. Prosiect peilot – rhan dau Bydd y prosiect hwn yn cynnwys y gwaith manwl o gynllunio, gweithredu a gwerthuso cynllun peilot i brofi'r broses newydd i bennu a dilysu cenedligrwydd pan gaiff unigolyn ei gyhuddo, a, thrwy hynny, i greu un pwynt cyfeirio y gellir ei gadw drwy gydol hynt unigolyn drwy'r system cyfiawnder troseddol. Nod cyffredinol y prosiect fydd profi effaith y broses hon a'i chyfraniad at gyflawni'r amcan polisi cyffredinol sef alltudio'r rheini sy'n gymwys yn fwy effeithiol, mor gynnar â phosibl ar ôl iddynt gael eu dedfrydu. Bydd hefyd yn ystyried sut y gellid llunio un dull adnabod a allai gysylltu gwybodaeth am genedligrwydd a hunaniaeth unigolion sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan ddatblygu gwaith rhagarweiniol ar bwynt gweithredu cyntaf cynllun wyth pwynt yr Ysgrifennydd Cartref. Yn olaf, bydd y cynllun peilot yn asesu goblygiadau ei gyflwyno'n genedlaethol. Felly, y cwestiynau allweddol y bydd y cynllun peilot yn ceisio eu hateb yw: > Sut yn union y bydd yr asiantaethau amrywiol yn cyflawni eu rolau yn y broses newydd arfaethedig? > I ba raddau y bydd cychwyn ar y broses o ddynodi cenedligrwydd yn gynt yn helpu i gyflawni'r amcan cyffredinol o alltudio carcharorion o dramor yn fwy amserol? > Beth yw goblygiadau cyflwyno'r broses newydd arfaethedig a dull adnabod a rennir, yn enwedig i'r heddlu, yr IND a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (o safbwynt adnoddau, systemau, hyfforddiant, adnoddau dynol ac arweinyddiaeth)?

Prosiect *(parhad)*	**Carcharorion o Dramor: Prosiect Peilot Dynodi Cenedligrwydd**	
Amcanion (parhad)	> Mewn faint o achosion y byddai'r pŵer chwilio newydd yn cael ei ddefnyddio (ar sail cyfran y rhai a ddrwgdybir sy'n gwrthod cydweithredu pan ofynnir iddynt ddilysu eu cenedligrwydd pan gânt eu cyhuddo)? > Pa fath o ddull adnabod a allai gael ei ddefnyddio, a beth fyddai ei werth o ran cyflawni amcanion polisi cyffredinol? > Beth fydd effaith y broses newydd o safbwynt hil a hawliau dynol?	
Camau Gweithredu	Bydd y camau gweithredu yn cynnwys: > Gweithdai gyda chynrychiolwyr asiantaethau i gynllunio'r broses fusnes yn fanwl, pennu'r ffordd y caiff llwyddiant y cynllun peilot ei fesur a nodi'r gwaith parodrwydd (canllawiau, hyfforddiant, cyfathrebu) sy'n angenrheidiol i'w weithredu yn y safleoedd prawf. > Gweithdai gydag ardaloedd cyfiawnder troseddol eraill a chynrychiolwyr yr IND i ddilysu'r cynllun busnes a luniwyd gan y safleoedd peilot. > Adnoddau a chanllawiau i helpu staff i gyflawni'r broses newydd. > Mapiau manwl o'r broses newydd. > Cynllun dysgu a datblygu. > Cynllun cyfathrebu, rhanddeiliaid ac arweinyddiaeth. > Cynllun gwerthuso. > Cynlluniau gweithredu lleol a gynhyrchir gan y timau gweithredu lleol sy'n nodi'r ffordd y caiff y gwaith cynllunio manwl ei gwblhau a sut y caiff y prawf ei weithredu. > Adroddiadau misol ar ganfyddiadau ymchwil gweithredu. > Adroddiadau gwerthuso misol ar effaith y broses newydd ar ganlyniadau. > Adroddiad gwerthuso interim. > Adroddiad gwerthuso terfynol gydag argymhellion ar ei gyflwyno'n genedlaethol.	
Amserlen	Creu a sefydlu'r cynllun peilot	Rhagfyr 2006–Ionawr 2007
	Cynllun busnes, asesu effaith, profion ac ymchwil gweithredu	Ionawr 2007–31 Mawrth 2007
	Cynllunio'r gwerthusiad o ganlyniadau	Ionawr 2007–31 Mawrth 2007
	Gweithgarwch trosiannol (e.e. cyfathrebu, hyfforddiant, ac ati)	Chwefror–31 Mawrth 2007
	Adroddiadau ymchwil gweithredu misol	Chwefror–Ebrill 2007
	Adroddiadau gwerthuso misol	Ebrill–Rhagfyr 2007
	Adroddiad interim	Medi 2007
	Adroddiad terfynol a chynllunio ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol	Tachwedd–31 Rhagfyr 2007

2. Blaenoriaethau sefydledig

Mae *Cydbwyso'r system cyfiawnder troseddol o blaid y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith* a rhaglenni Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS) yn ategu rhaglen o ddiwygio sydd wedi bod ar waith ers 2004. Wrth i adnoddau ar draws y system cyfiawnder troseddol orfod ateb galw cynyddol, rydym yn ceisio canolbwyntio'n fwy ar y ffordd rydym yn eu defnyddio. I'n helpu i wneud hyn, rydym wedi dadansoddi pob prosiect yn y rhaglen ddiwygio bresennol ac wedi nodi'r rhai hynny sydd:

> yn gweddu orau i'r cyfeiriad strategol presennol ar gyfer y system cyfiawnder troseddol; ac sydd
> fwyaf cyflawnadwy.

Rydym wedi nodi 10 prosiect (nad ydynt wedi'u nodi eisoes yn yr adran 'Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg') sydd â'r lefel uchaf o flaenoriaeth, yn seiliedig ar y meini prawf uchod. Fe'u rhestrir isod, ac maent wedi'u dosbarthu yn unol â themâu *Lleihau Trosedd, Cyflwyno Cyfiawnder: Crynodeb o'r Cynllun Strategol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol 2004–08*.

Hyder

> Ymchwil – Adolygiad Trylwyr.
> Troseddau Casineb Hiliol.
> Cyfres o Fesurau ar Anghymesuredd Hiliol yn y system cyfiawnder troseddol.
> Ymchwil sy'n ategu Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 2 (Hyder).

Dioddefwyr a thystion

> Ymgorffori Rhwymedigaethau Statudol a bennir yng Nghod Ymarfer Dioddefwyr Troseddau.
> Cynllun lawndal Anafiadau Troseddol: mân newidiadau i'r cynllun ac ailgynllunio'r broses fusnes.
> Bodloni Gofynion Ansawdd Enghreifftiol ar gyfer yr Arolwg o Brofiadau Tystion a Dioddefwyr (WAVES).

Dwyn mwy o droseddwyr o flaen eu gwell am fwy o droseddau

> Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR).
> Ehangu'r Cynllun Hysbysiad Cosb am Anhrefn (PND).
> Cyfryngwyr.
> Cynllun Rhybuddion Amodol.

Tablau gwybodaeth am brosiectau blaenoriaethau sefydledig

Hyder

Prosiect	**Ymchwil – Adolygiad Trylwyr**		
Uwch swyddog cyfrifol	David Wood, Cyfarwyddwr Hyder, Cwsmeriaid a Chyfathrebu, y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR)	**Cyswllt**	Sara Trikha 020 7035 8588
Amcanion	Meithrin dealltwriaeth gadarn o achosion anghymesuredd o fewn y system cyfiawnder troseddol, a sicrhau gwaith rheoli perfformiad effeithiol ar lefel leol a chenedlaethol.		
Camau Gweithredu	Crynhoi ymatebion yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad Trylwyr o ystadegau A95 (hil). Adolygu a diweddaru pecynnau gwybodaeth am hil i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Contractio set ddafa sylfaenol – cyfres o safonau i gasglu data ethnigrwydd yn lleol. Nodi'r ffyrdd gorau o gynorthwyo ardaloedd â phoblogaethau duon a lleiafrifoedd ethnig isel.		
